

Crynodeb Gweithredol

1. Mae gan blant mewn ysgolion sy'n rhan o'r cynllun Llysgenhadon Gwych ymwybyddiaeth gymharol uchel o hawliau plant. O'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw, dywedodd 76% eu bod yn gwybod beth oedd hawliau, ac roedd y mwyafrif yn gallu enwi o leiaf un hawl.
2. Roedd ymwybyddiaeth plant o CCUHP (46%) yn is na'u hymwybyddiaeth o hawliau yn gyffredinol. Mae hynny'n awgrymu, er bod gan blant wybodaeth dda am yr hawliau y dylent eu derbyn, fod ganddyn nhw lefel is o ddealltwriaeth o darddiad hawliau, pam mae ganddyn nhw hawliau, a phwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu hawliau'n cael eu gwireddu.
3. Roedd eu gwybodaeth am y Comisiynydd Plant yn 58%, sy'n uwch nag mewn arolygon blaenorol. O'r rhai oedd wedi clywed am y Comisiynydd, roedd y mwyafrif yn credu ei bod yn llwyddiannus yn codi llais dros blant, yn rhoi gwybod iddyn nhw am eu hawliau, yn gwrando arnyn nhw ac yn sicrhau eu bod yn derbyn eu hawliau.
4. Yn draddodiadol mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cael eu tangynrychioli yn y cynllun. Fodd bynnag, ymddengys bod cyflwyno darpariaeth Gymraeg yn y Gynhadledd Llysgenhadon Gwych a gallu'r Comisiynydd i gynnal sesiynau ac ymweliadau ysgol yn Gymraeg yn cael effaith. Mae nifer yr ysgolion Cymraeg sy'n cymryd rhan eleni wedi mwy na dyblu.
5. Mae cyfran yr Ysgolion Arbennig sy'n rhan o'r cynllun yn gymharol isel. Mae'r ymchwil yn awgrymu nad yw'r cynllun o bosib yn addas ar gyfer holl ddisgyblion Ysgolion Arbennig, a bod angen mwy o gydweithio â'r ysgolion hyn er mwyn deall sut mae datblygu ymgysylltiad yn y sector hwn.
6. Mae Llysgenhadon Gwych yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau yn eu hysgolion, a'r mwyaf cyffredin ohonynt oedd siarad am hawliau plant mewn gwasanaeth ysgol, a chynhyrchu posteri gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau.
7. Roedd ymwybyddiaeth o'r cynllun Llysgenhadon Gwych yn uchel ymhlith y myfyrwyr yn yr arolwg, gan fod dros ddau draean ohonynt wedi clywed amdano, ac roedd y mwyafrif yn credu bod eu Llysgenhadon wedi'u helpu i ddeall eu hawliau.
8. Mae athrawon a phlant fel arfer yn gadarnhaol am y cynllun, er bod tasgau mwy penodol, fel Stori Sam, yn tueddu i gael eu ffafrio'n fwy na'r tasgau cynyddu ymwybyddiaeth cyffredinol. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion lle roedd ethos hawliau cryf eisoes yn bodoli, er enghraifft yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF, lle nododd y staff a'r plant nad oeddent yn ychwanegu rhyw lawer at y gwaith roedden nhw eisoes yn ei wneud.
9. Mae'r athrawon yn barnu bod ganddynt lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant, ond hoffai'r mwyafrif gael hyfforddiant pellach ar hawliau hefyd.
10. Mae'r Tasgau Arbennig sy'n galw am gasglu data yn ffordd effeithiol o gasglu barn a phrofiadau plant yng Nghymru a dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth. Mae'r dull o gynllunio'r Dasg Arbennig wedi newid yn ddiweddar ers i'r Comisiynydd presennol ddod i'r swydd, fel bod y tasgau'n cael eu gwreiddio oddi mewn i flaenoriaethau ehangach y Swyddfa, sy'n cael eu pennu drwy ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Mae cynllun dylanwadu clir i'r tasgau bellach, ac mae hynny wedi cael effaith amlwg ar bolisi yn achos Tasg Arbennig Stori Sam.